

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Leighton Roberts &
Associates/Bwrdd Iechyd Cwm
Taf

Dyddiad arolygu: 23 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 24 Tachwedd
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	27
4.	Beth nesaf?	31
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	33
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ..	34
	Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Leighton Roberts and Associates yn 27 Stryd Fawr, Glynrhedynog, Rhondda Cynon Taf, CF43 4RH, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Cwm Taf, ar 23 Awst 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Leighton Roberts and Associates yn gweithio'n galed i gynnig profiad o ansawdd uchel i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn gynhwysfawr ac yn ddarllenadwy ar y cyfan, ond mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer cofnodi cydsyniad.

Gwnaethom argymhell y dylid ystyried creu rôl rheolwr y practis. Byddai'r swydd hon yn helpu i oruchwylio ochr anghlinigol a busnes y practis.

Mae angen gwella nifer o bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol mewn un ddogfen.

Hefyd, mae angen i'r staff gwblhau ail ran yr hyfforddiant ar ddadebru cardiopwlmonaidd (CPR) a hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn
- Clywsom y staff yn rhoi gwybodaeth glir i'r cleifion am daith y claf yn y practis yn sgil cyfyngiadau COVID-19
- Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd
- Roedd yr amgylchedd yn darparu cyfleusterau clinigol a chyfleusterau a oedd mewn cyflwr da ac yn cynnwys y cyfarpar priodol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwella'r wybodaeth am gwynion drwy roi gwybodaeth ychwanegol (gweler ansawdd profiad y claf am ragor o fanylion)
- Mae angen i'r staff gwblhau'r cwrs ymarferol (rhan 2) ar ddadebru cardiopwlmonaidd (CPR) a hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.
- Mae'n rhaid i'r staff fod wedi'u cofrestru â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog a/neu frechiadau yn brydlon
- Mae angen gwneud gwelliannau i nifer o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol
- Gweler Atodiad C am ragor o fanylion am yr holl welliannau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Leighton Roberts and Associates yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Glynrhedynog. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol, y mae un ohonynt yn rheolwr swyddfa, a dau dderbynydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol a chosmetig preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod Leighton Roberts and Associates yn ymrwymedig i gynnig profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y practis wedi gwneud newidiadau i'r amgylchedd a'i ddull o ddarparu gwasanaethau yn unol â chanllawiau diweddaraf y llywodraeth. Mae'r newidiadau hyn yn galluogi'r cleifion i gael eu trin mor ddiogel â phosibl yn y practis.

Rhoddai'r staff wybodaeth berthnasol i'r cleifion dros y ffôn ynglŷn â COVID-19 a thaith y claf yn y practis.

Rydym wedi gwneud argymhellion ynglŷn â gwybodaeth y practis am gwynion er mwyn sicrhau bod dogfennau'n berthnasol ac yn gyson â safonau a rheoliadau yng Nghymru.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cyflwynwyd cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff bob amser yn fy nhrin â pharch ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus pan fyddaf yn cael triniaeth"

"Mae'r holl staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol"

"Staff cyfeillgar iawn, gan fy mod yn nerfus iawn bob tro rwy'n ymweld â'r practis. Bob amser yn rhoi tawelwch meddwl i mi pan fyddaf yn yr ystafell aros ac yn yr ystafell driniaeth"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Ar y cyfan, roedd y cleifion yn hapus iawn â'r practis, ond gwnaed y sylwadau canlynol:

"Peidio â chanslo fy apwyntiadau mor aml ac ar fyr rybudd"

"Peidio â chanslo apwyntiadau a drefnwyd"

Aros yn iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau a oedd wedi'u gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael ar gyfer y staff a'r cleifion, yn ogystal â manau diheintio dwylo ym mhob rhan o'r practis.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd triniaeth, roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith a dim ond cleifion ag apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw a allai ymweld â'r practis. Mae sgriniau wedi'u gosod wrth ddesg y dderbynfa ac mae cadeiriau, cylchgronau a phosteri diangen wedi'u symud o'r ardal aros.

Cyn apwyntiad, bydd y staff yn ffonio'r claf ac yn cwblhau holiadur sgrinio COVID-19. Yn ogystal, mae'r staff hefyd yn rhoi gwybodaeth am daith y claf. Mae'r mesurau hyn yn helpu i leihau faint o amser y mae claf yn ei dreulio yn y ddeintyddfa.

Pan fydd cleifion yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau, gofynnir iddynt a oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Rhoddir hylif diheintio dwylo iddynt pan fyddant yn mynd i mewn i'r practis. Rhaid i gleifion wisgo masg tan y byddant yn eistedd yn y ddeintyddfa, oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag gwneud hynny.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

O ganlyniad i'r pandemig ac yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, roedd y practis wedi cael ei gymonni cymaint â phosibl. O ganlyniad i hyn, prin oedd y wybodaeth hybu iechyd yn y practis. Byddai'r staff yn rhoi gwybodaeth hybu iechyd benodol i'r cleifion yn seiliedig ar y driniaeth yr oedd ei hangen arnynt.

Roedd hysbysfwrdd yn yr ardal aros yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth i gleifion, megis gwybodaeth am gwynion, costau triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat, gwybodaeth am wasanaethau brys/y tu allan i oriau a manylion pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis.

Roedd enw'r practis ar flaen yr adeilad ac i'w weld yn glir o'r ffordd a'r palmentydd. Roedd enw'r deintydd i'w weld wrth ymyl mynedfa'r practis. Roedd oriau agor a rhif ffôn y practis i'w gweld.

Roedd arwyddion dim smygu yn y practis, a chadarnhaodd y staff fod y practis yn cydymffurfio â'r deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael gofal mewn ffordd urddasol a pharchus a chlywsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Roedd y staff yn gallu cael sgysiau preifat â'r cleifion yn y deintyddfeydd i ffwrdd o'r dderbynfa/ardal aros, os oedd angen.

Roedd 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol² i'w gweld yn yr ardal aros, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael eu gwneud ac roedd unrhyw ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

¹ Cafodd deddfwriaeth Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

² Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.

Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat i'w gweld ar yr hysbysfwrdd yn yr ardal aros.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion, a oedd ar gael yn y dderbynfa. Gwelsom fod angen cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y daflen wybodaeth i gleifion yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Nid oedd y datganiad o ddiben³ ar gael. Felly, gwnaethom argymhell y dylid llunio datganiad o ddiben sy'n cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhaid i'r datganiad o ddiben fod ar gael i'r cleifion ar gais.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r daflen wybodaeth i gleifion gael ei diweddarau i gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

Rhaid i ddatganiad o ddiben gael ei gwblhau, gan gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. Rhaid anfon copi i AGIC

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith a bod gwybodaeth am ofal iechyd ar gael iddynt yn yr iaith honno.

³ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor o wybodaeth ewch i agic.org.uk

Dyweddod y mwyafrif o'r cleifion wrthym fod y staff wedi gofyn iddynt ym mha iaith y byddai'n well ganddynt gyfathrebu. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn bodloni gofynion unrhyw glaf a oedd yn dymuno sgwrsio mewn iaith arall heblaw Saesneg. Roedd y practis yn cael cymorth gan sefydliadau i fodloni'r ceisiadau hyn. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei chadw y tu ôl i'r dderbynfa. Efallai yr hoffai'r staff ystyried arddangos y poster llinell iaith ar ddesg y dderbynfa neu'n agos ati er mwyn i'r cleifion allu gweld bod y gwasanaeth hwn ar gael a chael gafael arno'n hawdd.

Prin oedd y wybodaeth a oedd i'w gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, roedd hyn yn rhannol am fod y practis wedi cael ei gymonï oherwydd COVID-19. Dywedodd y staff wrthym mai nifer bach iawn o'r cleifion sy'n siarad Cymraeg, ond bod staff a allai sgwrsio yn Gymraeg pe bai angen. Pe bai cleifion yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu mewn iaith arall, byddent yn ymdrechu i fodloni cais y claf.

Roedd dolen sain ar ddesg y dderbynfa, y gall pobl â chymhorthion clyw ei defnyddio. Roedd poster i'w gweld yn hysbysu'r cleifion bod dolen sain ar gael yn y practis iddynt ei defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig wedi'u ffeilio. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Gofal amserol

Ar adeg ein hymweliad ac oherwydd y cyfyngiadau yn sgil COVID-19, dim ond cleifion ag apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw allai ymweld â'r practis. Cynghorir cleifion i gyrraedd ar amser ar gyfer eu hapwyntiad oherwydd y niferoedd a ganiateir yn y practis ar unrhyw adeg. Os bydd claf yn cyrraedd yn gynnar, gofynnir iddo aros tan y bydd y staff yn gofyn iddo ddod i mewn.

Mae'r practis yn ceisio darparu gofal deintyddol mewn ffordd amserol a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi i'w hapwyntiadau. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' i gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Dyweddod pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn y gwasanaeth y tu allan i oriau i'w weld yn yr ardal aros. Mae hefyd wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar neges peiriant ateb y practis.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom fod cofnodion o opsiynau a chynlluniau triniaeth yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion hynny.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. O blith y cofnodion a welsom, roedd saith allan o ddeg yn cynnwys cofnod o hanes meddygol.

Hawliau pobl

Nodwyd bod polisi cyfle cyfartal penodol ar waith yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys trefniadau i gael mynediad i'r practis. Roedd un deintyddfa a thoiled cyhoeddus ar lawr gwaelod y practis, ac roedd dwy ddeintyddfa ar y llawr cyntaf. Roedd cyfleusterau'r llawr gwaelod yn hygyrch i unrhyw un sy'n defnyddio cyfarpar i'w helpu i symud o gwmpas.

Roedd arwyddion clir ar gyfer toiled y cleifion. Roedd canllawiau (*handrails*) yn y toiled i roi cymorth pe bai angen. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael hefyd. Dim ond mewn argyfwng yr oedd y toilet cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio ar adeg ein hymweliad. Hysbyswyd y cleifion am hyn cyn iddynt gyrraedd y practis.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cwynion. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i fynegi pryder i'w gweld yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar yr hysbysfwrdd yn yr ardal aros.

Roedd y weithdrefn gwyno yn yr ardal aros yn cyfeirio at broses gwyno'r GIG, sef Gweithio i Wella, ⁴ac yn cynnwys cyfeiriad y bwrdd iechyd lleol. Efallai y bydd

⁴ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â

staff y practis am ystyried arddangos poster i a/neu daflenni Gweithio i Wella i'r cleifion pan fydd modd i'r practis ddychwelyd i normal.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar goll o'r weithdrefn gwyno a oedd i'w gweld yn yr ardal aros. Nid oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion AGIC nac unrhyw sefydliad arall a allai helpu claf gyda chwyn. Mae angen cynnwys manylion am yr hyn sy'n digwydd os na ellir datrys cwyn.

Hefyd, ar ôl edrych ar yr holl wybodaeth am gwynion nodwyd bod angen i'r practis adolygu, cyfuno a diweddarau ei wybodaeth. Yn benodol, mae angen i'r staff sicrhau bod y wybodaeth y maent yn ei defnyddio yn benodol i Gymru. Roedd y cod ymarfer ar gyfer delio â chwynion gan gleifion yn cynnwys manylion ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae angen dileu'r manylion hyn er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

Hefyd, gwelsom fod dogfennau gwahanol yn ymwneud â chwynion yn rhestru enwau staff a rolau gwahanol y dylid cysylltu â nhw pe bai cwyn yn cael ei gwneud. Er mwyn osgoi dryswch, dylai enw a/neu deitl swydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion yn y practis fod yn gyson ym mhob dogfen sy'n ymwneud â chwynion.

Byddai'r practis yn cael budd o system addas i gofnodi unrhyw bryderon/cwynion a ddaw i law, ymateb iddynt a'u monitro. Ar adeg ein hymweliad, roedd yr holl gwynion ysgrifenedig yn cael eu storio mewn ffeil. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod na system arall a allai nodi statws cyfredol unrhyw gwynion yn hawdd. Roedd hyn yn golygu na allai'r staff weld y wybodaeth yn gyflym i'w galluogi i nodi unrhyw themâu, gyda'r nod o wella'r gwasanaethau a ddarperir. Argymhellir y dylid cofnodi unrhyw sylwadau ar lafar gan gleifion yn ganolog er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu.

Dywedodd y staff wrthym fod gan y practis broses ar waith i gael adborth gan gleifion am y gwasanaethau a'r gofal y maent yn eu cael. Cesglir yr adborth hwn drwy flwch awgrymiadau. O ganlyniad i'r pandemig, nid yw'r blwch hwn yn cael ei ddefnyddio am y tro. Dywedodd y staff y gallai cleifion anfon eu hadborth drwy e-bost, ond nid oedd dim i'w weld i gadarnhau hyn.

chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Cyn y pandemig, prin oedd yr adborth a gafwyd, ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod y practis wedi dysgu a gwneud gwelliannau yn seiliedig ar unrhyw adborth a gafwyd. Felly, argymhellir y dylid cyflwyno system a fyddai'n galluogi'r practis i gasglu a dadansoddi unrhyw adborth a geir gan gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r weithdrefn gwyno a chynnwys manylion AGIC a sefydliadau eraill a all helpu cleifion. Mae angen cynnwys manylion am yr hyn sy'n digwydd os na ellir datrys cwyn hefyd. Mae angen diweddarau'r wybodaeth hon yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod enw a/neu deitl swydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion yn y practis yn gyson ym mhob dogfen sy'n ymwneud â chwynion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ganllawiau a geir ym mhob dogfen sy'n rhoi gwybodaeth am gwynion yn benodol i Gymru.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried system addas ar gyfer cofnodi, monitro ac ymateb i gwynion, gan gynnwys sylwadau ar lafar. Byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu i'w helpu i wneud gwelliannau.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd y gellir casglu adborth gan gleifion a'i arddangos neu ei gyfleu i'r cleifion, a fydd yn galluogi'r practis i ddysgu a gwella ei wasanaethau yn seiliedig ar adborth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod angen i'r practis wneud gwelliannau mewn nifer o feysydd er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r rheoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Mae angen i'r staff gofrestru â'r tîm iechyd galwedigaethol lleol a chwblhau ail ran yr hyfforddiant ar CPR a hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae angen i'r polisi diogelu gael ei deilwra'n lleol a chynnwys enw arweinydd diogelu'r practis a manylion y tîm diogelu lleol.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd glân a thaclus i'r staff ac ymwelwyr. Roedd contractau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd y practis mewn adeilad deulawr, ac roedd ardaloedd y staff a'r cleifion wedi'u lleoli ar y ddau lawr. Nid oedd unrhyw gyfyngiadau o ran cael mynediad i'r adeilad, ac felly byddai unrhyw un sy'n defnyddio cymorth symudedd/cadair wthio yn gallu cael mynediad i'r adeilad.

Roedd y dderbynfa, yr ardal aros, toiledau'r cleifion ac un ddeintyddfa ar y llawr gwaelod. Roedd dwy ddeintyddfa ac ardal aros ar y llawr cyntaf. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys y cyfarpar priodol.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n gyffredinol dda y tu mewn a'r tu allan. Roedd pob ardal yn y practis yn ymddangos yn lân ac yn rhydd o beryglon baglu.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amryw leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw'n cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Roedd arwyddbyst ar gyfer yr allanfeydd brys, ac roedd poster lechyd a Diogelwch i'w gweld yn y practis. Adolygwyd yr asesiad risg tân ym mis Medi 2020, ac ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg. Caiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y safle'n parhau i fod yn addas at y diben.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith. Gwelsom nad oedd hyfforddiant rhai o'r staff ar CPR/dadebru brys (cwrs ymarferol) yn gyfredol ers 2019. Mae'r bwch yn yr hyfforddiant hwn yn un o ganlyniadau anffodus y pandemig, sydd wedi golygu y bu'n rhaid canslo cyrsiau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y bydd cwrs priodol yn cael ei drefnu. Felly, argymhellwn y dylid trefnu'r hyfforddiant gofynnol ar unwaith er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r agwedd hon ar eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedwyd wrthym fod swyddog cymorth cyntaf yn y practis, ond nid oedd ei hyfforddiant yn gyfredol. Gwnaethom argymhell y dylai'r staff ddilyn cwrs cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod trefniadau cymorth cyntaf priodol ar waith.

Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁵. Gwnaethom rai awgrymiadau yn ymwneud â storio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys sydd wedi'u rhestru yn yr adrannau isod.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hyfforddiant ar argyfwng meddygol ei drefnu ar gyfer pob aelod perthnasol o'r staff cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y swyddog cymorth cyntaf penodedig yn dilyn cwrs cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ei fod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom nad oedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a diheintio (dihalogi) offer deintyddol. Roedd yr offer deintyddol yn cael ei lanhau ym mhob deintyddfa ac roedd ardal ar wahân yn y practis yn cael ei defnyddio ar gyfer y broses sterileiddio. Argymhellwn y dylai'r practis ystyried canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁶, sy'n nodi y dylai'r cyfleusterau dihalogi fod ar wahân i'r ardal triniaeth glinigol. Fel arall, gwelsom fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn yr ardaloedd dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth bod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r cyfarpar sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd PPE ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

⁵ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

⁶ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis ddefnyddio adnodd archwilio cydnabyddedig megis adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Cydnabyddir bod yr adnodd archwilio hwn yn arfer dda am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar reoli heintiau, yn unol â'r gofynion pum mlynedd a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith i waredu gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus. Gwelsom fod bag du yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwastraff clinigol ar ddiwrnod ein harolygiad. Gwnaethom argymell y dylid defnyddio bagiau gwastraff priodol er mwyn osgoi unrhyw gamgymeriadau.

Roedd dogfennaeth gyffredinol gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain ar waith mewn perthynas â threfniadau rheoli heintiau'r practis. Mae angen diwygio'r wybodaeth hon a'i theilwra i'r practis. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfeiriadau at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol yn benodol i'r practis.

Nid oedd y practis wedi gwneud trefniadau priodol gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau wedi'u hachosi gan gyfarpar miniog a/neu frechiadau. Gwelsom rai cofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer rhai aelodau o staff clinigol y practis. Roedd rhai eraill yn aros am y canlyniadau gan eu meddyg teulu ar adeg ein hymweliad. Mae angen y wybodaeth hon ar gyfer pob aelod o staff i gadarnhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cymorth iechyd galwedigaethol addas yn y practis

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r wybodaeth am reoli heintiau er mwyn sicrhau bod polisi ar waith sy'n benodol i'r practis

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y defnyddir bagiau bin priodol i gasglu gwastraff

Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu canllawiau WHTM 01-05 ac ystyried sut y gallai'r practis wella ei weithdrefnau dihalogi yn unol ag argymhellion arfer dda, gan gynnwys archwiliadau

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion); roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion i ddangos bod y staff wedi cwblhau rhan gyntaf yr hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i roi CPR.

Roedd cyffuriau brys a gedwir yn y practis yn cael eu storio mewn man lle y gallai'r cleifion gael gafael arnynt. Nid yw'r cwpwrdd wedi'i gloi fel y gellir cael gafael ar y cyffuriau hyn a chyfarpar arall yn gyflym. Er y caiff yr ardal ei goruchwyllo, dylid ystyried lleoliad y cyfarpar brys.

Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i asesu hen gyffuriau a chwistrelli, a rhoi rhai newydd yn eu lle, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (y DU)⁷.

Gwelsom fod rhai eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf wedi dyddio, ac argymhellwyd y dylid gosod eitemau newydd yn eu lle, a'u harchwilio'n rheolaidd.

Nid oedd gan y practis bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i'r cleifion. Mae polisi o'r fath yn ofynnol gan y rheoliadau deintyddol. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

⁷ Nod [y Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu lleoliad y cyfarpar brys er mwyn sicrhau y gall y staff gael gafael arno'n gyflym ac yn hawdd ac y cyfyngir ar fynediad y cyhoedd ato

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi ar waith ar gyfer archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff eitemau newydd eu gosod yn y pecyn cymorth cyntaf yn lle'r rhai sydd wedi dyddio, a bod y staff yn gwirio dyddiadau'r holl eitemau yn rheolaidd.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Yn ychwanegol at y polisi, roedd nifer o ddogfennau eraill yn y ffeil diogelu. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff orfod cyfeirio at sawl dogfen er mwyn cael gwybodaeth am ddiogelu.

O ganlyniad i hyn, gwnaethom argymhell y dylid adolygu'r polisi, ei deilwra ar gyfer staff y practis a sicrhau bod yr holl wybodaeth wedi'i chynnwys mewn un ddogfen. Dylai gynnwys manylion y tîm diogelu lleol a siart lif yn nodi pwy y dylid cysylltu ag ef a'r camau y dylai'r staff eu cymryd pe bai mater diogelu yn codi. Yn ogystal, dylai'r staff sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar-lein⁸.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu oedolion a phlant. Nid oedd yn glir yn ystod ein trafodaethau â'r staff pwy oedd yr arweinydd diogelu enwebedig. Dylai'r practis enwebu arweinydd i fod yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu a rhoi rhywfaint o gyfarwyddyd ar faterion diogelu.

⁸ Dyma Weithdrefnau Diogelu cenedlaethol Cymru. Maent yn nodi rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion a allai gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gydag aelod arall o'r staff, a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd y staff y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁹ (DBS). Cadarnhaodd y staff y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, a nodwyd gennym fod hyn yn arfer da.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn benodol i'r practis ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn un ddogfen. Rhaid i hyn gynnwys manylion y tîm diogelu lleol ac enw arweinydd diogelu'r practis. Bydd siart lif y gellir cyfeirio ati'n gyflym yn helpu'r staff i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt os bydd mater diogelu yn codi.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm clinigol wedi cael hyfforddiant digonol i ddefnyddio'r cyfarpar, ac roedd cofnodion hyfforddiant mewnol a phroses sefydlu'r staff yn dystiolaeth o hyn.

Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn drefnus. Roedd lloriau ac arwynebau'r deintyddfeydd yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon ar gael.

Daethom i'r casgliad bod trefniadau ar waith gan y practis i ddefnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Daethom i'r casgliad hwn gan fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel

⁹ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom fod y rheolau lleol¹⁰ i'w gweld ger y cyfarpar pelydr-X i nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu hamlygu i'r cyfarpar pelydr-x cyn lleied â phosibl.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod pob un o'r deintyddion wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddu pelydr-X wedi'u cwblhau fel rhan o'r gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal nifer o archwiliadau mewnol i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a roddir i gleifion. Argymhellwn y dylai'r practis ystyried defnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Cydnabyddir bod yr archwiliadau hyn yn arfer dda am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn helpu i nodi unrhyw feysydd ar gyfer gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael y canllawiau diweddaraf drwy gylchlythyrau gan y bwrdd iechyd, cyrff allanol ac aelodau o'r staff sy'n mynd i gynadleddau ac yn cael hyfforddiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried rhaglen archwilio'r practis a chynnwys nifer o adnoddau archwilio cydnabyddedig yn ei gynllun. Bydd hyn yn helpu i nodi meysydd i'w gwella yn y practis.

¹⁰ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth. Bwriedir iddynt nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamlygu i'r cyfarpar pelydr-X cyn lleied â phosibl.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan y practis bolisi sicrhau ansawdd ar waith a rhaglen archwilio mewnol a gynhelir er mwyn iddo allu dangos arfer orau wrth ddarparu gofal deintyddol. Yn ogystal, cwblhaodd y practis Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd y GIG¹¹ ym mis Chwefror 2021. Bydd hyn yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Nid yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn yn cael eu gwneud yn rheolaidd o ffeiliau electronig ac roedd gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi GDPR a pholisi cyfrinachedd. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd da. Roedd hyn yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon uchel, gan gynnwys diogelwch a llesiant deintyddol y cleifion.

Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys digon o wybodaeth am hanes deintyddol y cleifion, eu rheswm dros fynychu, cynllunio triniaeth a gwybodaeth adalw. Gwnaethom nodi y gellid gwella'r broses o gofnodi cydsyniad. Gwnaethom argymhell y dylid archwilio cofnodion y cleifion yn rheolaidd er mwyn

¹¹ Adnodd hunanasesu ar gyfer Cymru gyfan yw'r Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol, sydd wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio ym mhRACTISAU deintyddol y GIG. Ei brif ddiben yw helpu ymarferwyr deintyddol i gydymffurfio â gofyniad cytundebol y GIG i gyflwyno adroddiad sicrhau ansawdd blynyddol; mae'n ei gwneud yn ofynnol i bractisau ddisgrifio sut maent yn cyrraedd y safonau ac yn annog y tîm i ystyried meysydd y mae angen eu gwella.

nodi unrhyw wybodaeth sydd ar goll a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion perthnasol o ran cadw cofnodion proffesiynol.

Roedd y nodiadau'n cael eu storio'n briodol ac roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da yn gyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad i driniaeth, lle y bo'n berthnasol, ei gofnodi'n glir yn nodiadau'r cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig archwilio cofnodion y cleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw fylchau eu nodi, ac felly, eu hunioni.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom grŵp o staff a oedd yn cydweithio'n dda ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis, ond mae angen eu gwella er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis.

Gwelsom fod y staff yn barod i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol er mwyn sicrhau y caiff y practis ei redeg yn effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid ystyried creu rôl rheolwr y practis er mwyn goruchwyllo ochr anghlinigol a busnes y practis yn llawn.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Leighton Roberts and Associates. Caiff y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd ei arwain gan reolwr swyddfa a'r uwch-nyrs ddeintyddol, a gefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol.

Ar adeg ein hymweliad, dywedwyd wrthym mai dim ond ers ychydig yr oedd y rheolwr swyddfa wedi bod yn ei rôl. Hefyd, roedd yr uwch-nyrs ddeintyddol yn ymgymryd â rhai dyletswyddau rheolwr practis, yn ychwanegol at ei gwaith clinigol llawn amser ei hun. Gan nad oes yr un aelod o'r staff wedi'i ddynodi'n rheolwr swyddogol y practis, gwnaethom argymhell y dylid ystyried penodi rheolwr dynodedig ar gyfer y practis. Byddai'r rôl hon yn helpu i oruchwyllo ochr anghlinigol a busnes y practis.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o bolisi chwythu'r chwiban y practis, a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn teimlo'n hyderus yn codi unrhyw broblemau neu bryderon am y gofal a roddir i gleifion, naill ai'n uniongyrchol gydag aelod arall o'r staff, neu gyda chorff amgen, priodol pe bai angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion, ac roedd hyn yn cael ei ategu ystod o bolisiâu a gweithdrefnau. Gwnaethom nodi bod y mwyafrif o'r polisiâu wedi'u creu yn 2014, ac wedi'u hadolygu'n flynyddol neu yn ôl yr angen. Roedd hyn wedi'i nodi yn y dogfennau a welsom. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnwys. Yn ogystal, templedi Cymdeithas Ddeintyddol Prydain oedd y rhan fwyaf o'r polisiâu. Argymhellwyd y dylid adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis. Hefyd, byddai ffeil benodol neu dudalen gyfeirio sy'n nodi holl bolisiâu a gweithdrefnau'r practis yn helpu'r staff i ddod o hyd i'r wybodaeth.

Gwelsom fod y staff wedi llofnodi rhai o'r polisiâu a'r gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall. Dywedwyd wrthym fod unrhyw ddiweddiadau'n cael eu rhannu â'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Roedd gan y practis hefyd dystysgrif yswiriant atebolwydd cyhoeddus gyffredol.

Cadarnhaodd y rheolwr swyddfa ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran yr hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC o dan y rheoliadau, er enghraifft os bydd cleifion yn cael anaf difrifol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis ac y gellir cyfeirio atynt yn hawdd (mewn un ffeil neu ar daflen mynegai) fel y gellir dod o hyd iddynt yn gyflym.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried creu rôl rheolwr y practis er mwyn helpu i oruchwylio ochr anghlinigol a busnes y practis.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Roedd y practis yn defnyddio dogfen gyngor ar gyflogi staff gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain i ymdrin â nifer o bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol. Fodd bynnag, nid oedd hon wedi cael ei datblygu i gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau nac wedi'i theilwra i'r practis.

Cadarnhaodd y staff mai nhw oedd yn gyfrifol am gyflogi staff, a'u bod wedi penodi aelod newydd i'r tîm yn ddiweddar.

Dangoswyd enghreifftiau o ffeiliau'r staff inni a oedd yn cynnwys amryw wybodaeth gyflogi. Roedd contract a thystiolaeth o gwblhau'r cyfnod sefydlu yn ffeil yr aelod mwyaf newydd o'r staff. Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu storio mewn cabinet dan glo.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau eu swydd, a gwelsom dystiolaeth o'r rhain ar gyfer pob aelod o'r grŵp staff. Dywedodd y staff wrthym y byddai tystysgrifau DBS yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Mae'r arfer hwn yn helpu i sicrhau dewisiadau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, er enghraifft plant.

Roedd gan y practis broses arfarnu ar waith, ond nid oedd unrhyw arfarniadau'n cael eu cynnal ar gyfer y staff.

Gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac i fodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Fodd bynnag, nid oedd system ganolog ar waith i gofnodi hyfforddiant staff. Argymhellwyd y dylid datblygu system o'r fath am fod yn rhaid i ffeil pob aelod o'r staff gael ei harchwilio er mwyn nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Cynhelir cyfarfodydd tîm ffurfiol bob mis, a chânt eu cofnodi. Mae cyfle i'r staff ychwanegu eitemau i'r agenda a dosberthir y cofnodion i bob aelod o'r staff. Mae'r staff i gyd yn llofnodi'r cofnodion i gadarnhau eu bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n ymwneud â'r practis.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiweiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer rhai aelodau o'r staff clinigol. Roedd tri aelod o'r staff yn aros am ganlyniadau profion gwaed gan eu meddyg teulu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol a sicrhau eu bod yn ymdrin â recriwtio staff, gan gynnwys cynnal gwiriadau sy'n berthnasol i'w gwaith, sefydlu, cadw cyflogeion, amodau cyflogaeth a gofynion hyfforddi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried rhoi cofnod hyfforddiant canolog ar waith a all nodi cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y ceir dogfennau Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol ac y caiff copïau o'r canlyniadau eu cadw ar ffeil

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae rhoi hysbysiad diffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a all arwain at gamau cyfreithiol sifil neu droseddol.

Dylai cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol

Gwasanaeth: Leighton Roberts & Associates

Dyddiad arolygu: 23 Awst 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Leighton Roberts & Associates

Dyddiad arolygu: 23 Awst 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r daflen wybodaeth i gleifion fael ei diweddarau i gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y Rheoliadau	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 6 (1), (2), (3) ac Atodlen 2	Ar waith	Sarah Wiltshire	24/12/2021
Rhaid i ddatganiad o ddiben gael ei gwblhau, gan gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. Rhaid anfon copi i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 5 (1), (2) ac Atodlen 1	Cwblhawyd y cam gweithredu a chytunwyd arno ag AGIC.	Leighton Roberts Deintydd	Dd/G

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r weithdrefn gwyno a chynnwys manylion AGIC a sefydliadau eraill a all helpu cleifion. Mae angen cynnwys manylion am yr hyn sy'n digwydd os na ellir datrys cwyn hefyd. Mae angen diweddarau'r wybodaeth hon yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 21 (4) (a) a (b)	Ar waith	Sarah Wiltshire	12/11/21
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod enw a/neu deitl swydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion yn y practis yn gyson ym mhob dogfen sy'n ymwneud â chwynion	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 21 (1) Safonau Iechyd a Gofal – 6.3 Gwrandio a Dysgu o adborth	Wedi'i gwblhau	Sarah Wiltshire Nyrs Ddeintyddol	Dd/g
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ganllawiau a geir ym mhob dogfen sy'n rhoi gwybodaeth am gwynion yn benodol i Gymru.	Safonau Iechyd a Gofal – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Ar waith	Leighton Roberts Deintydd	12/11/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried system addas ar gyfer cofnodi, monitro ac ymateb i gwynion, gan gynnwys sylwadau ar lafar. Byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu i'w helpu i wneud gwelliannau	Safonau Iechyd a Gofal – 6.3 Gwrando a Dysgu o adborth	Wedi'i gwblhau	Sarah Wiltshire Nyrs Ddeintyddol	Dd/G
Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd y gellir casglu adborth gan gleifion a'i arddangos/cyfleu i'r cleifion, a fydd yn galluogi'r practis i ddysgu a gwella ei wasanaethau yn seiliedig ar adborth.	Safonau Iechyd a Gofal – 6.3 Gwrando a Dysgu o adborth	Mae blwch awgrymiadau eisoes ar waith. Caiff holiaduron cleifion eu creu hefyd.	Sarah Wiltshire	Diwedd mis Ionawr 2022.
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hyfforddiant ar argyfwng meddygol/CPR ei drefnu ar gyfer pob aelod perthnasol o'r staff cyn gynted â phosibl	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17 (1) (a) Safonau Iechyd a Gofal – 7.1 Y Gweithlu	Eisoes wedi'i gwblhau	Deintyddion Nyrsys Deintyddol	Dd/G

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y swyddog cymorth cyntaf penodedig yn dilyn cwrs cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ei fod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17 (1) (a) Safonau Iechyd a Gofal – 7.1 Y Gweithlu	Trefnu i aelodau o'r staff fynd ar gyrsiau.	2 x Nyrs ddeintyddol	Cyn gynted ag y bydd cwrs ar gael.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cymorth iechyd galwedigaethol addas yn y practis	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (5) (b) ac (c) (ii) Safonau Iechyd a Gofal – 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cwblhawyd y cam gweithredu a chaiff pob mater iechyd galwedigaethol ei drefnu drwy'r bwrdd iechyd lleol.	Dd/G	Dd/G
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r wybodaeth am reoli heintiau er mwyn sicrhau bod polisi ar waith sy'n benodol i'r practis	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae archwiliadau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth wrthi'n cael eu trefnu ac mae'r polisi'n cael ei gwblhau.	Nyrs Ddeintyddol	Ionawr 22

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	2017 – Rheoliad 13 (1) (b) Safonau Iechyd a Gofal – 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y defnyddir bagiau bin priodol i gasglu gwastraff	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 22 (1) (a) Safonau Iechyd a Gofal – 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Wedi'i gwblhau	Victoria Williams Nyrs Ddeintyddol	Dd/G
Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu canllawiau WHTM 01-05 ac ystyried sut y gallai'r practis wella ei weithdrefnau dihalogi yn unol ag argymhellion arfer dda, gan gynnwys archwiliadau	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (2) (d) (ii)	Mae cynlluniau ar gyfer ystafell ddihalogi wrthi'n cael eu datblygu, ac mae'r bwrdd iechyd lleol wedi gosod cynlluniau. Mae plymer wedi ymweld â'r practis a disgwylir amcanbrisiau am waith. Caiff archwiliadau eu cynnal gan ddefnyddio'r	Leighton Roberts Deintydd	Ebrill 2022

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.		
Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu lleoliad y cyfarpar brys er mwyn sicrhau y gall y staff gael gafael arno'n gyflym ac yn hawdd ac y cyfyngir ar fynediad y cyhoedd ato	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (1) (b)	Wedi'i gwblhau	Sarah Wiltshire Victoria Williams	Dd/G
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi ar waith ar gyfer archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 8 (1) (l)	Diweddarau'r polisi a'r cofnod	Sarah Wiltshire Victoria Williams	Rhagfyr 2021
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff eitemau newydd eu gosod yn y pecyn cymorth cyntaf yn lle'r rhai sydd wedi dyddio, a bod y staff yn gwirio dyddiadau'r holl eitemau yn rheolaidd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (1) (b) Safonau Iechyd a Gofal – 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau	Cam gweithredu wedi'i gwblhau. Caiff cofnodion a gwiriadau wythnosol eu cwblhau	Chelsie Jones Nyrs Ddeintyddol	Dd/G

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	diagnostig meddygol			
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn benodol i'r practis ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn un ddogfen. Rhaid i hyn gynnwys manylion y tîm diogelu lleol ac enw arweinydd diogelu'r practis. Bydd siart lif y gellir cyfeirio ati'n gyflym yn helpu'r staff i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt os bydd mater diogelu yn codi.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 14 (1) (a), (c), (e)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal – 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg</p>	Ar waith	<p>Sarah Wiltshire Nyrs Ddeintyddol</p>	Ionawr 2022
<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried rhaglen archwilio'r practis a chynnwys nifer o adnoddau archwilio cydnabyddedig yn ei gynllun. Bydd hyn yn helpu i nodi meysydd i'w gwella yn y practis.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (2) (d) (ii)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal – 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd</p>	Defnyddir y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth i nodi dimensiynau i'w datblygu	<p>Leighton Roberts Deintydd</p>	Dd/G

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	3.5 Cadw cofnodion			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad i driniaeth, lle y bo'n berthnasol, ei gofnodi'n glir yn nodiadau'r cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (9) (d) ac 20 (1) (a) (i) (ii) Safonau Iechyd a Gofal 3.5 – Cadw cofnodion	Caiff cynlluniau triniaeth eisoes eu llunio ar gyfer pob triniaeth. Gofynnir am gydsyniad ym mhob apwyntiad a chaiff ei gofnodi yn y nodiadau	Deintyddion	Parhaus
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig archwilio cofnodion y cleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw fylchau eu nodi, ac felly, eu hunioni.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (2) (d) (ii) Safonau Iechyd a Gofal 3.5 – Cadw cofnodion	Bwriedir gwneud hyn yn fwy rheolaidd a phob tri mis o leiaf	Deintyddion	Rhagfyr 2021

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r holl bolisiau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis ac y gellir cyfeirio atynt yn hawdd (mewn un ffeil neu ar daflen mynegai) fel y gellir dod o hyd iddynt yn gyflym.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 8 (1), (2), (6) a (9)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac Atebolrwydd a 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Cynhelir adolygiad blynyddol o'r holl bolisiau rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2021. Cânt eu diwygio/diweddaru yn ôl yr angen, a chaiff taflen mynegai ei chreu wrth iddynt gael eu diweddarau.</p>	<p>Sarah Wiltshire Nyrs Ddeintyddol</p>	<p>Chwefror 2022</p>
<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried creu rôl rheolwr y practis er mwyn helpu i oruchwylio ochr anghlinigol a busnes y practis.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal – 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Leighton Roberts Deintydd</p>	<p>Cyn gynted ag y bydd ar gael.</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r holl bolisiau a gweithdrefnau adnoddau dynol a sicrhau eu bod yn ymdrin â recriwtio staff, gan gynnwys cynnal gwiriadau sy'n berthnasol i'w gwaith, sefydlu, cadw cyflogaeth, amodau cyflogaeth a gofynion hyfforddi</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 8 (1) (h) ac (i)</p>	<p>Mae hyn eisoes yn cael ei wneud. Dylid sicrhau y cynhelir arfarniadau blynyddol</p>	<p>Sarah Wiltshire Nyrs Ddeintyddol</p>	<p>Dd/G</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17 (4) (a) a (b) Safonau Iechyd a Gofal – 7.1 Y Gweithlu	Yn yr arfaeth, gweler uchod	Nyrs ddeintyddol	Dd/G
Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried rhoi cofnod hyfforddiant canolog ar waith a all nodi cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17 (1) (a) Safonau Iechyd a Gofal – 7.1 Y Gweithlu	Ar waith	Sarah Wiltshire Nyrs Ddeintyddol	Ionawr 2022
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y ceir dogfennau Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol ac y caiff copïau o'r canlyniadau eu cadw ar ffeil	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (6) (c) (i) (ii)	Dylai'r ddau aelod o'r staff y mae angen dogfennau Hepatitis B arnynt gysylltu â'r gwasanaeth iechyd galwedigaeth i gael profion gwaed cyn gynted â phosibl.	Staff y mae angen dogfennau Hepatitis B arnynt	Chwefror 2022

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Safonau Iechyd a Gofal – 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sarah Wiltshire a Victoria Williams

Teitl swydd: Nyrs Ddeintyddol

Dyddiad: 22 Hydref 2021